Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
—
Welsh Parliament
Senedd Commission

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Tachwedd 2022

Annwyl Peredur

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-2024,** a gyhoeddwyd ar 21 Hydref 2022. Ceir manylion am ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid yn **Atodiad 1**.

Rwy'n falch bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2023-24, a'i fod yn croesawu cynnwys llinell gyllideb benodol ar gyfer Diwygio'r Senedd yn y gyllideb ddrafft. Bwriad Comisiwn y Senedd yw sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl wrth gyflwyno costau y gellir eu priodoli i gynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd yng nghyllidebau'r dyfodol.

Rydw i hefyd yn falch bod y Pwyllgor wedi nodi'r cynnydd a wnaed gan y Comisiwn o ran estyn allan at garfannau nad ydynt wedi ymgysylltu â'r Senedd yn hanesyddol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y gwaith a wnaed gan Bwyllgorau'r Senedd a'r Senedd Ieuenctid yn y maes hwn yn gyflawniadau nodedig.

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at newid bach i'r naratif yn Nhabl 1 o Gyllideb y Comisiwn 2023-24. Mae esboniad ar hyn yn **Atodiad 2.**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn yr wythnos nesaf. Os oes unrhyw wybodaeth bellach yr hoffai eich Pwyllgor ei chael, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir,

Ken Skates AS
copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Atodiad 1

Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn nodi 'Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24' ac, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, mae'n cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2023-24, ac yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r gyllideb hon.

Nodwyd

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn mabwysiadu dull cydweithredol o leihau'r defnydd o ynni ar ystâd y Senedd ac yn ymgysylltu ag Aelodau, eu staff a staff y Comisiwn i gasglu syniadau ac i gynllunio a gweithredu prosiectau a pholisïau sy'n bodloni'r nodau hyn.

Derbyniwyd

Rydym wedi ymgysylltu â Phenaethiaid staff, staff y Comisiwn, Undebau Llafur a rhwydweithiau'r Comisiwn i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r mesurau arbed ynni a nodir isod, er mwyn sicrhau dull cydweithredol o ymdrin â'r mesurau y cytunwyd arnynt.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu diweddariadau o bryd i'w gilydd ynghylch y canlynol:

- **y mentrau arbed ynni sydd wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'u gweithredu;**
- **effeithiolrwydd y mentrau hynny o ran sicrhau canlyniadau cynaliadwy;**
- **a'r effaith gysylltiedig ar gostau ac arbedion.**

Derbyniwyd

Bydd y Comisiwn yn gweithredu'r mesurau arbed ynni a ganlyn i leihau defnydd nwy dros y gaeaf:

Mesur	Arbediad
Gostwng pwynt gosod y system gwresogi drwy'r ystâd o 21C i 20C (1 radd)	10%
Diffodd y gwres yn y mannau hynny y gwyddom nad ydynt yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau penodol (ee Siambr Hywel, yr Ystafell Ddosbarth)	5%+
Cytuno â Llywodraeth Cymru i ddiffodd y system gwresogi yn y rhannau hynny o'r adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio ar ddiwrnodau penodol (2A, 5ed llawr, Swyddfeydd Aelodau Gweinidogion)	
Defnyddio'r pympiau gwresogi parthau newydd i ostwng y gwres yn sylweddol ar rai lloriau ar ddiwrnodau penodol. E.e. diffodd y gwres yn 4A ar ddydd Gwener, ac annog pobl i ddefnyddio cyfleusterau newydd 1A.	

Gwneud y defnydd gorau o fiomas, ee drwy drefnu i archebu uwch naddion pren	
Diffodd y gwres yng nghynteddau'r lifftiau	
Lleihau'r cyfnodau y mae'r system ymlaen, pan fo hynny'n ymarferol	

Cafodd y cynlluniau arbed ynni ehangach a ganlyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd hefyd:

- Lleihau'r galw am aerdymheru drwy godi'r pwynt gosod sy'n cychwyn y system aerdymheru a chyfyngu ar ei ddefnydd mewn rhannau penodol o'r adeilad (yn haf 2023).
- Mesurau cadw tŷ - gofalu bod yr holl offer o amgylch yr adeilad wedi'u diffodd ac annog staff i wneud hynny drwy wneud yn siŵr eu bod yn gwybod am y cynnydd ym mhris ynni.
- Ystyried yr opsiynau a nodwyd yng Nghynllun Capasiti EFM ynghylch mynediad cyhoeddus i adeiladau ar ddiwrnodau tawelach.
- Archwiliadau ynni - mae tîm EFM wedi cwblhau rhai archwiliadau ynni, ac mae eraill wedi'u cynllunio, i dynnu sylw at gyfleoedd i arbed ynni.
- Ynni adnewyddadwy – blaenoriaethu'r gwaith o osod paneli solar (mesur tymor canolig yn y Strategaeth Carbon Niwtral)

Byddwn yn rhoi diweddariad cychwynnol i'r Pwyllgor ym mis Mai 2023.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud y canlynol:

▪ ystyried y manteision ariannol a gweithredol neu fel arall o brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel fel dewis arall yn lle ymestyn y brydles gyfredol; ac
▪ yn darparu diweddariadau rheolaidd ar yr opsiynau a werthuswyd mewn perthynas â dyfodol pob adeilad ar yr ystâd er mwyn sicrhau tryloywder a gwerth am arian.

Derbyniwyd

Bydd prydles bresennol Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032. Mae'r brydles yn cynnwys hawl awtomatig i adnewyddu, am 25 mlynedd arall, ar ddiwedd y brydles bresennol.

Mae'r Comisiwn wedi sefydlu rhaglen Ffyrdd o Weithio. Mae hyn yn cynnwys prosiect i ystyried ein hanghenion o ran llety ar gyfer y tymor hir ym Mae Caerdydd, gan gynnwys yr opsiynau a allai fod ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Thŷ Hywel.

Yn unol ag arferion gorau Trysorlys EM a Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Llyfr Gwyrdd, bydd achos busnes tri cham yn cael ei ddatblygu i fod yn sail i'r prosiect hwn. Cam cyntaf yr achos busnes hwn fydd yr Achos Amlinellol Strategol. Caiff hwn ei ddrafftio yng ngwanwyn 2023.

I gefnogi Achos Amlinellol Strategol y prosiect, mae'r Comisiwn yn defnyddio ymgynghorwyr eiddo proffesiynol i roi cyngor technegol annibynnol ar yr opsiynau sydd ar gael i'r Comisiwn mewn perthynas â Thŷ Hywel.

Mae’r Comisiwn yn disgwyl cael y cyngor cychwynnol manwl hwn gan ei ymgynghorwyr eiddo yn ystod gwanwyn 2023. Rhagwelir y bydd hyn yn golygu y gellir cwblhau’r Achos Amlinellol Strategol ym mis Mai 2023.

Byddwn felly yn rhoi diweddariad cychwynnol i’r Pwyllgor ym mis Mai 2023.

Argymhelliad 5. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi diweddariad cyn gynted ag y bydd penderfyniadau ynghylch dyfodol swyddfa Bae Colwyn a phresenoldeb y Senedd yn y gogledd wedi’u gwneud.

Derbyniwyd

Ystyriodd y Comisiwn ddyfodol swyddfa Bae Colwyn a phresenoldeb y Senedd yng Ngogledd Cymru yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

Mae canlyniad mewn egwyddor y drafodaeth hon yn amodol ar gyngor cyfreithiol a phroffesiynol pellach. Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor ym mis Chwefror 2023.

Argymhelliad 6. Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd ystyried darparu cymorth ychwanegol ar gyfer staff a/neu staff ar gyflogau is a allai wynebu anawsterau ariannol wrth i effeithiau’r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo.

Derbyniwyd

Ystyriodd y Comisiwn a ddylid darparu cymorth ychwanegol ar gyfer staff ar gyflogau is a/neu staff a allai wynebu anawsterau ariannol wrth i effeithiau’r cynnydd mewn costau byw gael eu teimlo yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd a bydd yn parhau i adolygu hyn.

Mae Comisiwn y Senedd yn cynnig nifer o raglenni cymorth i’w staff, gan gynnwys nifer o gynlluniau aberthu cyflog, megis cymorth gyda chostau gofal plant a chostau teithio, taliadau cyflog cynnar ar gyfer y Nadolig, a chronfa galedi a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae nifer o opsiynau ar gael i staff gymryd rhan mewn cynlluniau aelodaeth sy'n caniatáu iddynt gael mynediad at amrywiaeth fwy eang o wasanaethau am gost is, megis Cyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil, a hynny drwy ddidyniadau cyflog.

Mae’r tudalennau ar y fewnrwyd sy’n ymwneud â Lles Ariannol, a gafodd eu datblygu fel rhan o Strategaeth Les y Comisiwn, yn darparu cyfeiriadau pellach at gymorth allanol, ynghyd â chanllawiau ariannol.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, sydd ar gael i'r holl Aelodau, Staff Cymorth yr Aelodau, a staff y Comisiwn. Llinell gymorth am ddim yw hwn, sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hefyd drwy linc ar y we. Mae gwybodaeth ar gael ar fewnrwyd y Comisiwn.

Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnig lefel o gyfrinachedd o'r radd flaenaf yn unol â Chod Moeseg ac Ymarfer y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cwnsela a Seicotherapi, ac ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol ei throsglwyddo i'r Comisiwn nac i unrhyw Aelod fel y cyflogwr.

Mae'r llinell gymorth yn ffordd i staff gael cyngor ar nifer o faterion.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd roi camau ar waith i werthuso effeithiolrwydd y mentrau y mae wedi'u cyflwyno i liniaru effaith pwysau costau byw ar staff a rhannu ei ganfyddiadau o adolygiadau o'r fath.

Nodwyd

Mae Comisiwn y Senedd wedi rhoi nifer o gamau ar waith i gefnogi staff i ymdopi â phwysau o ran costau byw, gan gynnwys dyfarniad cyflog sy'n gysylltiedig â mynegeion, cynlluniau cymorth dewisol, arferion gwaith ystwyth ac atgyfeirio at gyngor allanol. Rydym yn monitro hyn drwy fecanweithiau ymgysylltu â staff ac Undebau Llafur.

Byddwn yn rhannu canfyddiadau â'r Pwyllgor yn ystod mis Mai 2023.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gofyn am farn yr Aelodau er mwyn deall yn well y gwaith ymgysylltu y maent am ei ddatblygu ac, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, dylai roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y gellir cyflwyno cynigion o'r fath o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Derbyniwyd

Byddwn yn gwneud trefniadau i gyfarfod ag Aelodau ac yn rhoi diweddariad cychwynnol i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2023.

Atodiad 2

Newid i Dabl 1 o Gyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24.

O ganlyniad i gynnydd diweddar mewn cyfraddau llog, mae'r Comisiwn bellach yn derbyn llog ar ei falansau gweithio.

Mae Tabl 1, fel y dangosir isod, wedi'i ddiwygio i ganiatáu i unrhyw incwm llog a dderbynnir gael ei ddefnyddio i'w osod yn erbyn costau gweinyddol y Senedd.

Tabl 1: Cyllideb 2023-24 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion

Gofynion y Senedd	2023-24 £000
Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn. Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd.	£67,643 Tabl 2
Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, llog ar falansau gweithio, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd.	£170 Tabl 8
Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill.	£61,971 Tabl 3

Bydd addasiad tebyg i Gyllideb 2022-23 yn cael ei gynnig yn ail Gyllideb Atodol y Comisiwn.